

Agenda – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 Catherine Hunt
Dyddiad: Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00 0300 200 6565
SeneddTai@senedd.cymru

(08:45 – 09:00) Rhag-gyfarfod

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
- 2 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn Dystiolaeth 6**
(09.00 – 10.00) (Tudalennau 1 – 47)
Shereen Williams, Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tom Jenkins, Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Egwyl (10.00 – 10.10)
- 3 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn Dystiolaeth 7**
(10.10 – 10.40) (Tudalennau 48 – 55)
Malcolm Burr, Cynullydd, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban
Egwyl (10.40 – 10.50)
- 4 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn Dystiolaeth 8**
(10.50 – 11.20) (Tudalennau 56 – 59)
Yr Athro Alistair Clark, Athro Gwyddor Gwleidyddiaeth, Prifysgol Newcastle
Egwyl (11.20 – 11.25)



- 5 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn Dystiolaeth 9**
(11.25 – 11.55) (Tudalennau 60 – 66)
Dr Jessica Laimann, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Rhwydwaith
Cydraddoldeb Menywod Cymru
- 6 Papurau i'w nodi** (Tudalen 67)
- 6.1 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** (Tudalen 68)
- 6.2 P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru – Llythyr gan Gadeirydd Y Pwyllgor Deisebau** (Tudalennau 69 – 70)
- 6.3 Digartrefedd – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (Tudalennau 71 – 72)
- 6.4 Diogelwch adeiladau – Llythyr gan Y Gweinidog Newid Hinsawdd** (Tudalennau 73 – 74)
- 6.5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** (Tudalen 75)
- 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac eitem 1 ar 7 Rhagfyr**
- 8 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Trafod y dystiolaeth**
(11.55 – 12.15)
Egwyl (12.15 – 13.15)

9 Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

(13.15– 14.15)

(Tudalennau 76 – 100)

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru


Simon Tew, Rheolwr y Bil, Bil Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Ruth Cornick, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Chris Humphreys, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

BIL ETHOLIADAU A CHYRFF ETHOLEDIG (CYMRU)

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI – CRAFFU
CYFNOD 1**

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

TACHWEDD 2023

RHAGAIR

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y **Comisiwn**") i ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 2 Hydref 2023 ("y **Bil Etholiadau**").

Yn y ddogfen hon, mae'r Comisiwn yn darparu arsylwadau manwl mewn perthynas â'r Bil, gan gynnwys deuddeg o argymhellion i'w wella.

Mae'r Comisiwn yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r Bil.

Beverley Smith

Cadeirydd

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD CF24 0BL
Rhif Ffôn: (029) 2046 4819
ymholiadau@ffiniau.cymru
www.cffd.llyw.cymru

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

BIL ETHOLIADAU A CHYRFF ETHOLEDIG (CYMRU) – YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

RHAGAIR.....	2
1. YNGLŶN Â'R COMISIWN	4
2. ARSYLWADAU MANWL AR Y BIL.....	4
Cymal 16(3) – Fforymau peilotau etholiadau Cymreig – aelodaeth	4
Cymal 45(3) – dyletswydd i roi sylw i sylwadau a gyflwynir	5
Cymal 45(4) – gwall teipio.....	6
Cymal 46(2) – cyfathrebu ag ymgygoreion gorfodol	7
Cymal 48(2) – dyddiadau cau ar gyfer cwblhau adolygiadau.....	7
Cymal 48(2) – croesgyfeirio gwallus	9
Cymal 51(3) – rhwymedigaeth i gwblhau adolygiadau cymuned	9
Cymal 51(3) – cylch adolygu newydd o 12 mlynedd ar gyfer adolygiadau cymuned	12
Cymal 55 – darpariaeth drosiannol	16
Cymal 70 – Rhan 1 o'r Bil yn dod i rym.....	17
3. CRYNODEB – GWELLIANNAU A AWGRYMIR I'R BIL	17

1. YNGLŶN Â'R COMISIWN

- 1.1 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Comisiwn ei sefydlu yn 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972, a'r enw a roddwyd arno ar y pryd oedd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Cafodd y Comisiwn ei ailenwi gan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("**Deddf 2013**").
- 1.2 Ar hyn o bryd, prif swyddogaethau'r Comisiwn yw monitro ac adolygu'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru.
- 1.3 At y diben hwn, mae pwerau'r Comisiwn yn cynnwys adolygu ffiniau prif ardaloedd cynghorau yng Nghymru a threfniadau etholiadol ar gyfer prif gynghorau. Mae gan y Comisiwn bwerau penodol hefyd mewn perthynas ag adolygu ffiniau cymunedau a threfniadau etholiadol cymunedau, er mai'r prif gynghorau sy'n bennaf cyfrifol am yr adolygiadau hyn yn eu priod ardaloedd. Nodir prif bwerau a dyletswyddau'r Comisiwn yn Neddf 2013.
- 1.4 Ar adeg paratoi'r ymateb hwn, mae Bil ar wahân a adweinir fel Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("**Bil y Senedd**") wedi cael ei gyflwyno i Senedd Cymru. Mae Bil y Senedd yn cynnwys darpariaethau i ailenwi'r Comisiwn yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ac i roi i'r Comisiwn y swyddogaeth ychwanegol o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd a phenderfynu arnynt. Bydd Bil y Senedd hefyd yn ailenwi Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru etc. 2013.

2. ARSYLWADAU MANWL AR Y BIL

2.1 Mae Rhan 1 o'r Bil Etholiadau yn cynnwys darpariaeth i'r Comisiwn sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadau ("**y Bwrdd**"), ac i swyddogaethau a gyflawnir gan y Bwrdd gael eu rhoi i'r Comisiwn. Mae Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil yn diwygio darpariaethau presennol Deddf 2013 sy'n llywodraethu (ymhlith pethau eraill) adolygiadau o ffiniau cymunedau, trefniadau etholiadol cymunedau a threfniadau etholiadol prif ardal o dan y Ddeddf honno. Mae'r adrannau canlynol o'r ddogfen hon yn nodi arsylwadau manwl y Comisiwn sy'n ymwneud yn bennaf â'r agweddau hyn ar y Bil Etholiadau.

Cymal 16(3) – Fforymau peilotau etholiadau Cymreig – aelodaeth

2.2 Mae Pennod 3 o Ran 1 o'r Bil Etholiadau yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer "peilota" trefniadau gweinyddu etholiadol newydd ar gyfer cyfnodau cyfyngedig mewn ardaloedd diffiniedig ("**Rheoliadau Peilot**").

2.3 Cyn y gellir gwneud Rheoliadau Peilot, rhaid i'r Comisiwn baratoi adroddiad yn asesu cynnig ar gyfer y rheoliadau, yn unol â chymal 15 o'r Bil. At hynny, os bydd y Rheoliadau Peilot yn effeithio ar ardal mwy nag un prif gyngor (ar eu pen eu hunain neu gyda pheilotau eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd), rhaid i'r

Comisiwn sefydlu “fforwm peilotau etholiadau Cymreig” yn unol â chymal 16 o’r Bil – sef “*fforwm ar gyfer trafod materion sy’n ymwneud â’r peilot neu’r peilotau, gyda golwg ar ddarparu gwybodaeth a chyngor i bersonau sy’n rhoi’r peilot neu’r peilotau ar waith*”.

2.4 Er bod y swyddogaethau o dan gymalau 15 ac 16 yn cael eu mynegi fel swyddogaethau’r Comisiwn, mae’r Bil Etholiadau yn darparu bod yn rhaid iddynt gael eu harfer gan y Bwrdd: gweler adran arfaethedig newydd 20E(2) a (3)(b) o Ddeddf 2013, a fyddai’n cael ei mewnosod gan gymal 1(2) o’r Bil Etholiadau. Yn unol â hynny, y Bwrdd fydd yn gyfrifol mewn gwirionedd am adrodd ar gynigion ar gyfer Rheoliadau Peilot, ac am sefydlu fforwm peilot etholiad Cymreig yn y sefyllfaoedd perthnasol.

2.5 Mae cymal 16(3) o’r Bil Etholiadau yn nodi rhestr orfodol o gyfranogwyr mewn fforwm peilot etholiad Cymreig. Mae’r rhestr honno yn cynnwys, yn is-baragraff (c), “*un neu ragor o aelodau’r [Comisiwn] a chanddynt brofiad perthnasol*”.

2.6 Ym marn y Comisiwn, dylai’r geiriad hwn yng nghymal 16(3)(c) gyfeirio yn lle hynny at “*un neu ragor o aelodau’r Bwrdd Rheoli Etholiadol a chanddynt brofiad perthnasol*”. Y rheswm am hyn yw y bydd aelodaeth y Bwrdd yn wahanol i aelodaeth y Comisiwn, ac aelodau’r Bwrdd yn hytrach nag aelodau’r Comisiwn fydd â’r arbenigedd a’r profiad perthnasol at ddibenion fforwm peilot etholiad Cymreig.

2.7 Mae hyn yn dilyn o adran arfaethedig newydd 20F o Ddeddf 2013 (a fyddai’n cael ei mewnosod gan gymal 1(2) o’r Bil Etholiadau), sy’n darparu y bydd aelodau’r Bwrdd yn cynnwys dau aelod o’r Comisiwn ac o leiaf bedwar aelod sydd naill ai’n swyddogion etholiadau (h.y. swyddogion canlyniadau neu swyddogion cofrestru etholiadol) neu’n gyn-swyddogion etholiadau. Yr aelodau hynny sy’n swyddogion etholiadau sy’n debygol o fod â’r arbenigedd a’r profiad sy’n arbennig o berthnasol at ddibenion fforwm peilot etholiad Cymreig.

2.8 Mae’r Comisiwn hefyd o’r farn, yn seiliedig ar y geiriad presennol, na fyddai’r mecanwaith yn adran arfaethedig newydd 20E(2) a (3) o Ddeddf 2013 sy’n rhoi swyddogaethau i’r Bwrdd (y cyfeirir ato ym mharagraff 2.4 uchod), yn cael yr effaith o dybio bod “*aelodau o’r [Comisiwn]*” y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 16(3)(c) yn cyfeirio at “*aelodau o’r Bwrdd*”, sy’n grŵp ar wahân.

2.9 Felly, mae’r Comisiwn yn **awgrymu y dylai cymal 16(3)(c) o’r Bil Etholiadau ddarllen fel a ganlyn** (gyda’r testun newydd arfaethedig wedi’i danlinellu):

“un neu ragor o aelodau’r Bwrdd Rheoli Etholiadol a chanddynt brofiad perthnasol”.

Cymal 45(3) – dyletswydd i roi sylw i sylwadau a gyflwynir

2.10 Mae cymal 45 o’r Bil Etholiadau yn diwygio adrannau 34 a 35 o Ddeddf 2013, sy’n rheoleiddio’r weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2013

(megis adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal neu adolygiad o ffiniau cymuned).

- 2.11 Ar hyn o bryd, mae adran 35 o Ddeddf 2013 yn darparu (mewn crynodeb eang), pan fo corff adolygu (h.y. y Comisiwn neu brif gyngor) yn cynnal adolygiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fod yn rhaid i'r corff adolygu gynnal ymchwiliad a phroses ymgynghori gychwynnol, ac yna gyhoeddi adroddiad cychwynnol sy'n cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau perthnasol (y mae'r Comisiwn yn cyfeirio ato fel "Adroddiad Cynigion Drafft") ac ymgynghori ar y cynigion yn yr adroddiad. Wedyn, mae adran 36 o Ddeddf 2013 yn darparu bod yn rhaid i'r corff adolygu "*ystyried ei gynigion i newid gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo*" mewn ymateb i'w Adroddiad Cynigion Drafft, ac yna rhaid iddo lunio adroddiad sy'n cynnwys unrhyw argymhellion i newid (y mae'r Comisiwn yn cyfeirio ato fel Adroddiad Argymhellion Terfynol").
- 2.12 Mae adran 35(3) o Ddeddf 2013 yn rheoleiddio'r camau ymarferol penodol y mae'n rhaid i gorff adolygu eu cymryd ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Cynigion Drafft. Fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, byddai cymal 45(3)(b) o'r Bil Etholiadau yn diwygio adran 35(3) drwy egluro'r gofynion ar gyfer ymgynghori ar Adroddiad ar Gynigion Drafft (gweler is-baragraff (i) o gymal 45(3)(b), drwy ailenwi'r "cyfnod ar gyfer sylwadau" yn "gyfnod ymgynghori cyhoeddus" (gweler is-baragraff (ii)), a thrwy nodi bod yn rhaid i'r corff adolygu "*ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus*" (gweler is-baragraff (iii)).
- 2.13 Mae'r Comisiwn yn nodi nad yw'r diwygiad a wnaed i adran 35(3)(e) gan gymal 45(3)(b)(iii) (sy'n nodi bod yn rhaid i'r corff adolygu ystyried y sylwadau a gyflwynir iddo) yn ychwanegu unrhyw beth newydd at Ddeddf 2013, ond yn hytrach ei fod yn dyblygu'r gofyniad sydd wedi'i gynnwys eisoes yn adran 36(1) o Ddeddf 2013 sef bod yn rhaid i'r corff adolygu "*ystyried ei gynigion i newid gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo.*" Byddai modd osgoi'r dyblygu hyn, a byddai'r Bil Etholiadau yn fwy taclus o ganlyniad i hynny, pe bai cymal 45(3)(b)(iii) yn cael ei ddileu.
- 2.14 Gellir dadlau hefyd fod y gwelliant a nodir yng nghymal 45(3)(b)(iii) yn ddiangen, gan fod adran 35(3) o Ddeddf 2013 yn rheoleiddio *camau ymarferol* y mae'n rhaid i'r corff adolygu eu cymryd ar ôl cyhoeddi ei Adroddiad Cynigion Drafft, yn hytrach na rheoleiddio ystyriaeth sylweddol y corff adolygu o faterion yn yr adolygiad.
- 2.15 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai cymal 45(3)(b)(iii) gael ei ddileu o'r Bil Etholiadau**, yn bennaf am ei fod yn dyblygu darpariaeth a wnaed eisoes gan adran 36(1) o Ddeddf 2013.

Cymal 45(4) – gwall teipio

- 2.16 Mae cymal 45(4) o'r Bil Etholiadau wedi'i gynllunio i ailenwi'r "cyfnod ar gyfer sylwadau" y cyfeirir ato yn adran 36(1) o Ddeddf 2013 yn "gyfnod ymgynghori cyhoeddus" (gan adlewyrchu'r newid a wnaed i adran 35(3) o Ddeddf 2013 gan gymal 45(3)(b)(ii) o'r Bil, y cyfeirir ato ym mharagraff 2.12 uchod).

2.17 Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae cymal 45(4) o'r Bil Etholiadau (y fersiwn Saesneg) yn cyfeirio at "period of representations". Ymddengys fod hyn yn wall teipio. Mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai cymal 45(4) ddarllen fel a ganlyn** (gyda'r cywiriad wedi'i danlinellu):

"In section 36 (reporting on review), in subsection (1), for "period for representations" substitute "public consultation period"."

Cymal 46(2) – cyfathrebu ag ymgynghoreion gorfodol

2.18 Mae cymal 46(2) yn ychwanegu cyrff ychwanegol at y rhestr o ymgynghoreion gorfodol at ddibenion adolygiadau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013.

2.19 Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r newid hwn. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi ei chael hi'n anodd cysylltu â rhai ymgynghoreion gorfodol, yn enwedig mewn achosion lle nad yw negeseuon e-bost y Comisiwn wedi cael eu cydnabod.

2.20 Byddai'n helpu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau pe bai'n ofynnol i ymgynghoreion gorfodol enwebu, a darparu manylion cyswllt ar gyfer un pwynt cyswllt at ddibenion adolygiadau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013.

2.21 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylid mewnosod darpariaeth ychwanegol yng nghymal 46 o'r Bil Etholiadau, a fyddai'n diwygio adran 34(3) o Ddeddf 2013 fel bod ei destun agoriadol yn darllen fel a ganlyn** (gyda'r geiriad diwygiedig wedi'i danlinellu):

"At ddibenion adolygiad o dan y Rhan hon, yr "ymgynghoreion gorfodol" yw'r cyrff canlynol, y bydd unrhyw un ohonynt fodd bynnag yn peidio â bod yn ymgynghorai gorfodol at ddibenion yr adolygiad os na fydd yn enwebu i'r corff adolygu ar gais, ac yn darparu manylion cyswllt ar gyfer unigolyn i weithredu fel pwynt cyswllt unigol at ddibenion yr adolygiad –"

Cymal 48(2) – dyddiadau cau ar gyfer cwblhau adolygiadau

2.22 Byddai cymal 48(2) yn mewnosod adran 36B newydd yn Neddf 2013. Mae adran 36B yn nodi system newydd o ddyddiadau cau ar gyfer adolygiadau a gynhelir o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, ac yn unol â hynny (ymhlith pethau eraill):

2.22.1 mae'n rhaid i'r Comisiwn "*wneud pob ymdrech*" i gwblhau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal o dan adran 29 o fewn 12 mis;

2.22.2 mae'n rhaid i'r Comisiwn "*wneud pob ymdrech*" i gwblhau adolygiad o ffiniau tua'r môr o dan adran 28 o fewn 18 mis;

- 2.22.3 mae'n rhaid i'r Comisiwn "*wneud pob ymdrech*" i gwblhau adolygiad o ffiniau cymuned o dan adran 26 neu adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned o dan adran 32 o fewn 24 mis;
- 2.22.4 mae'n rhaid i brif gyngor "*wneud pob ymdrech*" i gwblhau adolygiad o ffiniau cymuned o dan adran 25 neu adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned o dan adran 31 o fewn 24 mis.
- 2.23 Er hynny, byddai adran arfaethedig newydd 36B(6) yn darparu na fyddai methiant i fodloni'r dyddiadau cau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd yr adolygiad.
- 2.24 Mae'r Comisiwn yn awgrymu y gallai rhwymedigaeth i "*wneud pob ymdrech*" i fodloni'r dyddiad cau perthnasol wrth gynnal adolygiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 fod yn drafferthus ac y gallai gael canlyniadau anfwriadol. Y rheswm am hyn yw efallai y bydd rhwymedigaeth i "*wneud pob ymdrech*" yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff adolygu ddefnyddio'r holl fesurau rhesymol sydd ar gael iddo i fodloni'r dyddiad cau, ac (os caiff ei herio) i gyfiawnhau pam nad yw wedi cymryd camau penodol a all fod wedi cael eu hawgrymu gan eraill.¹ Gallai hyn gael effaith sylweddol ar waith y Comisiwn a chyrrff adolygu eraill.
- 2.25 Er enghraifft, mae adran 35(4) o Ddeddf 2013 (ar ei ffurf bresennol, yn ogystal ag ar y ffurf ddiwygiedig a fyddai'n cael ei disodli gan gymal 45(3)(b)(iv) o'r Bil Etholiadau) yn caniatáu i'r corff adolygu benderfynu ar hyd yr ymgynghoriad ar ei Adroddiad Cynigion Drafft, ar yr amod nad yw'r cyfnod ymgynghori yn llai na 6 wythnos nad yn hwy na 12 wythnos. Pe bai'r corff adolygu yn caniatáu cyfnod ymgynghori sy'n *fwy na'r isafswm* (h.y. mwy na 6 wythnos), gellid ei farnu am beidio â defnyddio *pob mesur rhesymol* i fodloni'r dyddiad cau ar gyfer yr adolygiad hwnnw. Yn y ffordd hon, efallai na fyddai'r ddarpariaeth yn adran 35(4) o Ddeddf 2013 sy'n caniatáu i'r corff adolygu benderfynu ar hyd yr ymgynghoriad (gan ystyried, er enghraifft, ehangder a chymhlethdod y cynigion ar gyfer newid yn ei Adroddiad Cynigion Drafft) yn cael unrhyw effaith.²
- 2.26 At hynny, oherwydd y swyddogaethau ychwanegol a gyflwynir gan y Bil Etholiadau a Bil y Senedd, bydd y Comisiwn yn ddarostyngedig i lwyth gwaith ychwanegol sylweddol yn y dyfodol. Gellid dadlau bod y rhwymedigaeth i "*wneud pob ymdrech*" i gwblhau adolygiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 erbyn y dyddiad cau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd adnoddau i ffwrdd oddi wrth adolygiad o ffiniau etholiadol y Senedd, gan amddifadu'r Comisiwn o'r gallu i benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun a'r ffordd briodol o reoli ei lwyth gwaith newydd.
- 2.27 Mae gan y Comisiwn hefyd y pŵer i gynnal adolygiadau o ffiniau cymunedau ac adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedau drwy gytundeb â'r prif gyngor perthnasol, yn unol ag adrannau 26 a 32 o Ddeddf 2013. Gellid dadlau yn y dyfodol bod penderfyniad gan y Comisiwn i gynnal adolygiad cymuned o'r fath wedi peryglu

¹ Gweler er enghraifft ddyfarniad yr Uchel Lys yn *Brooke Homes v Portfolio Property Partners* [2021] EWHC 3015 (Ch) (Hugh Sims CF) ym mharagraffau 97 i 98 (ar gael yn <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Ch/2021/3015.html>)

² Ceir esboniad o'r term "Adroddiad Cynigion Drafft" yn y cyd-destun hwn ym mharagraff 2.11 uchod

ei allu i gwblhau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal o fewn y dyddiad cau, a'i fod yn gyfystyr â methiant i "wneud pob ymdrech" i fodloni'r dyddiad cau hwnnw. Gallai hyn gael effaith iasol ar y ffordd y mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiadau cymuned, a allai yn ei dro gael nifer o effeithiau andwyol.

2.28 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai'r rhwymedigaeth ar y corff adolygu i "wneud pob ymdrech" i fodloni'r dyddiadau cau yn adran arfaethedig newydd 36B o Ddeddf 2013** (a gaiff ei mewnosod gan gymal 48(2) o'r Bil Etholiadau) **gael ei disodli ym mhob achos gan rwymedigaeth i "geisio" bodloni'r dyddiadau cau hynny**. Mae'n debygol y bydd y rhwymedigaeth honno yn dal i ddylanwadu ar y ffordd y bydd y corff adolygu yn cynnal yr adolygiad, ond mewn ffordd sy'n osgoi aflonyddu ar weithrediadau'r corff adolygu a'r ffordd mae'n rheoli ei lwyth gwaith.

Cymal 48(2) – croesgyfeirio gwallus

2.29 Fel yr amlinellwyd uchod, byddai cymal 48(2) yn mewnosod (ymhlith pethau eraill) adran 36B(4) newydd yn Neddf 2013, gan nodi terfyn amser ar gyfer yr adolygiadau cymuned a gynhelir gan y Comisiwn.

2.30 Ar hyn o bryd, mae adran arfaethedig newydd 36B(4) yn cyfeirio at adolygiadau cymuned a gynhelir gan y Comisiwn "*o dan adran 26, 31 neu 32*" o Ddeddf 2013. Mae'r Comisiwn yn awgrymu, yn y cyd-destun hwn, mai gwall yw'r croesgyfeiriad at adran 31; dim ond o dan adrannau 26 a 32 y mae pwerau'r Comisiwn i gynnal adolygiadau cymuned yn cael eu rhoi. Mae adran 31(5) o Ddeddf 2013 yn cyfeirio at allu'r Comisiwn i gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned drwy gytundeb â'r prif gyngor; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth honno'n nodi'n glir y byddai unrhyw adolygiad o'r fath gan y Comisiwn yn cael ei gynnal "*o dan adran 32*".

2.31 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod y croesgyfeiriad at adran 31 yn adran arfaethedig newydd 36B(4) o Ddeddf 2013** (a fyddai'n cael ei mewnosod gan gymal 48(2) o'r Bil Etholiadau) yn cael ei ddileu.

Cymal 51(3) – rhwymedigaeth i gwblhau adolygiadau cymuned

2.32 Byddai cymal 51(3)(a) o'r Bil Etholiadau yn mewnosod isadran (A1) newydd yn adran 31 o Ddeddf 2013, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bobl prif gyngor "*gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn ei ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu [o 12 mlynedd]*".

2.33 Ar hyn o bryd, mae Deddf 2013 yn gosod cyfres o rwymedigaethau ar brif gynghorau at ddiben sicrhau bod ardaloedd a threfniadau etholiadol cymunedau yn cael eu cadw'n gyfredol. Mae'n ofynnol i brif gynghorau:

2.33.1 fonitro'r cymunedau yn eu hardal a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny;

- 2.33.2 ystyried a ddylid newid y cymunedau neu'r trefniadau etholiadol hynny;
- 2.33.3 cynnal adolygiadau o dan rai amgylchiadau;
- 2.33.4 cyflawni'r dyletswyddau hyn, i "*geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus*".³
- 2.34 Yn y cyd-destun hwn, mae dau fath o adolygiad y gall prif gynghorau eu cynnal: adolygiadau o ffiniau cymunedau o dan adran 25 o Ddeddf 2013 ac adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedau o dan adran 31 o Ddeddf 2013. Gelwir y ddau fath hyn o adolygiad, gyda'i gilydd, yn "adolygiadau cymuned".
- 2.35 Mae adolygiad o ffiniau cymuned yn adolygiad o ffiniau un neu ragor o gymunedau o fewn ardal y prif gyngor. Gall hyn fod yn briodol, er enghraifft, os yw datblygiadau tai newydd wedi gwneud gwahaniaethau sylweddol i'r map neu i batrymau anheddu mewn ardal, os oes anomaleddau nad ydynt wedi'u nodi mewn adolygiadau blaenorol (megis cyrsiau golff wedi'u rhannu ar draws dwy gymuned, neu ardaloedd lle mae ffordd fach neu ffordd bengaead wedi'i rhannu oddi wrth weddill cymuned), neu os oes newidiadau i gyrsiau dŵr neu dirddaliadaethau mawr megis ffermydd.
- 2.36 Ar ddiwedd adolygiad o ffiniau cymuned, gall y prif gyngor argymhell "*unrhyw newidiadau i ffin cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol*".⁴ Yn y cyd-destun hwn, gall "newid i ffin cymuned" olygu newid i ffin cymuned sy'n bodoli eisoes, neu ddiddymu cymuned sy'n bodoli eisoes a/neu greu cymuned newydd.⁵
- 2.37 Pan fydd prif gyngor yn argymhell y dylid newid ffin cymuned ar ddiwedd adolygiad o ffiniau cymuned, mae ganddo'r pŵer hefyd i argymhell mathau penodol o newidiadau pellach lle mae'r newidiadau pellach yn *ganlyniad i* newidiadau i ffiniau. Y newidiadau pellach a ganiateir yw:
- 2.37.1 "*newidiadau i gyngor cymuned*", sy'n golygu diddymu cyngor cymuned sy'n bodoli eisoes, sefydlu cyngor cymuned newydd, neu ychwanegu cymunedau i gyngor cymuned cyffredin (neu dynnu cymunedau i ffwrdd oddi wrtho);⁶
- 2.37.2 "*newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol*" un neu ragor o'r cymunedau sydd o dan adolygiad neu'r brif ardal.⁷ Yn y cyd-destun hwn, mae "trefniadau etholiadol cymuned" yn cyfeirio at nifer aelodau'r cyngor cymuned ac unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu'r gymuned yn wardiau at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned, tra bod "trefniadau etholiadol y brif ardal" yn cyfeirio at nifer aelodau etholedig y prif gyngor a'r trefniadau ar gyfer wardiau etholiadol.⁸
- 2.38 I'r gwrthwyneb, mae *adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned* yn mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth ar gyngor cymuned mewn cymuned

³ Deddf 2013, adran 22(1) i (3)

⁴ Deddf 2013, adran 25(3)(a)

⁵ Deddf 2013, adran 23(4)(a)

⁶ Deddf 2013, adran 23(4)(b)

⁷ Deddf 2013, adran 25(3)(b)

⁸ Deddf 2013, adrannau 29(9) a 31(7)

benodol. Nid oes gan y prif gyngor y pŵer mewn adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned i gynnig newidiadau i *ffiniau* cymunedau sydd o dan adolygiad, ac felly mae adolygiad o'r math hwn yn mynd rhagddo ar y sail bod y ffiniau hynny yn rhai sefydlog. Gall adolygiad o'r math hwn fod yn briodol yn enwedig lle mae poblogaethau cymunedau wedi newid, ond nid yw'r newidiadau yn golygu ei bod yn briodol newid ffiniau'r cymunedau hynny.

2.39 Ar ddiwedd adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned, gall prif gyngor "gynnig a gwneud" newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o dan adolygiad, yn ogystal â newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y brif ardal.

2.40 Felly, i grynhoi, wrth gynnal adolygiad o *ffiniau* cymuned, gall prif gyngor archwilio ac argymhell newidiadau i drefniadau etholiadol cymuned os yw *ffiniau'r* gymuned honno wedi newid. Ond nid oes gan y prif gyngor y pŵer mewn adolygiad o ffiniau cymuned i newid trefniadau etholiadol cymuned os nad yw ffiniau'r gymuned honno wedi newid – at y diben hwn, rhaid iddo gynnal adolygiad ar wahân o drefniadau etholiadol cymuned.

2.41 I'r gwrthwyneb, pan fydd yn cynnal adolygiad o *drefniadau etholiadol* cymuned, ni all y prif gyngor newid ffiniau'r gymuned (neu'r cymunedau) sydd o dan adolygiad. Mae'r math hwn o adolygiad yn tybio bod y ffiniau yn rhai sefydlog. Am y rheswm hwn, dim ond os yw'r prif gyngor yn ystyried bod ffiniau'r cymunedau a gaiff eu hadolygu yn briodol, fel na fydd angen i'r ffiniau hynny eu hunain gael eu hadolygu yn y dyfodol agos, y mae'n debygol o fod yn briodol i'r prif gyngor neilltuo adnoddau ar gyfer adolygiad o *drefniadau etholiadol* cymuned.

2.42 O ganlyniad, os yw prif gyngor yn mynd i gynnal adolygiad llawn o'r cymunedau yn ei ardal, rhaid iddo gynnal adolygiad o ffiniau cymuned yn gyntaf, ac *yna* adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned ar gyfer unrhyw gymunedau yn ei ardal *na* chafodd eu ffiniau eu newid o ganlyniad i'r adolygiad o ffiniau. Yr unig eithriad i'r angen i gynnal dau adolygiad fyddai pe bai ffiniau'r *holl* gymunedau yn ardal y prif gyngor wedi cael eu newid wrth gynnal adolygiad o ffiniau. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y byddai hyn yn sefyllfa eithriadol iawn.

2.43 Polisi cyffredinol y Comisiwn yw bod buddiannau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn cael eu gwasanaethu orau pan fo ffiniau etholiadau llywodraeth leol yn gydlynol, yn yr ystyr bod ffiniau wardiau etholiadol prif gyngor yn cyfateb i ffiniau cymunedau a wardiau cymuned. Felly, polisi cyffredinol y Comisiwn yw bod cymunedau yn ffurfio "blociau adeiladu" wardiau etholiadol prif gynghorau.

2.44 Yn unol â hynny, mae'n ddefnyddiol os yw'r prif gyngor wedi cwblhau adolygiad llawn o'r cymunedau yn ei ardal yn ddiweddar cyn i'r Comisiwn ddechrau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn yr un ardal – fel bod y ffiniau cymuned (a hefyd drefniadau etholiadol cymuned) a fydd yn ffurfio "blociau adeiladu'r" Comisiwn at ddibenion yr adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn briodol ac yn gyfredol.

2.45 **O ystyried y cefndir hwn, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai'r Bil Etholiadau gael ei addasu mewn tair ffordd.**

2.46 **Yn gyntaf, dylai pob prif gyngor orfod cynnal adolygiad o ffiniau pob cymuned yn ei ardal o dan adran 25 o Ddeddf 2013 o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.** Dylai cymal 51 gael ei ategu er mwyn cyflwyno diwygiad i adran 25 o Ddeddf 2013 i'r perwyl hwn. Y rheswm am hyn yw mai cymunedau yw'r "blociau adeiladu" ar gyfer adolygiadau'r Comisiwn o drefniadau etholiadol prif ardaloedd o dan adran 29 o Ddeddf 2013, ac mae o fudd i'r cyhoedd bod ffiniau cymuned yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.

2.47 **Yn ail, dylai'r rhwymedigaeth ar brif gyngor i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn ei ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu** (a fyddai'n cael ei chreu gan adran arfaethedig newydd 31(A1) o Ddeddf 2013, i'w mewnosod gan Gymal 51(3) (a) o'r Bil Etholiadau) **fod yn destun eithriad ar gyfer cymunedau:**

2.47.1 **Ile mae'r prif gyngor wedi argymhell newidiadau i ffiniau'r gymuned honno mewn adolygiad o dan adran 25 a gwblhawyd yn ystod yr un cyfnod adolygu;**

2.47.2 wrth gynnal yr adolygiad hwnnw o dan adran 25, **mae'r prif gyngor naill ai:**

2.47.2.1 **wedi argymhell y dylid gwneud newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y gymuned honno; neu**

2.47.2.2 **wedi cofnodi ei gasgliad yn ei adroddiad terfynol nad oes angen newid trefniadau etholiadol y gymuned.**

2.48 Nod yr eithriad hwn yw osgoi sefyllfaoedd lle mae'r prif gyngor wedi adolygu trefniadau etholiadol cymuned yn barod wrth gynnal adolygiad o ffiniau o dan adran 25, ond ei fod yn gorfod ailystyried yr un materion mewn adolygiad o dan adran 31 yn ystod yr un cyfnod adolygu. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd llawer iawn o adnoddau yn debygol o gael eu gwastraffu.

2.49 **Yn drydydd, dylai'r rhwymedigaethau ar brif gynghorau i gwblhau adolygiadau o dan adran 25 ac adran 31 fod yn ddarostyngedig i amodau penodol sy'n nodi y gallant fod yn fodlon os yw'r adolygiad yn cael ei gwblhau gan y Comisiwn yn lle hynny drwy gytundeb â'r prif gyngor,** yn unol ag adran 26 neu adran 32 o Ddeddf 2013. Heb yr amodau hynny, ymddengys na fyddai'n debygol y byddai'r mecanweithiau yn adran 26 ac adran 32 sy'n galluogi'r Comisiwn i gwblhau adolygiad yn lle'r prif gyngor yn cael llawer o effaith yn ymarferol.

Cymal 51(3) – cylch adolygu newydd o 12 mlynedd ar gyfer adolygiadau cymuned

2.50 Byddai cymal 51(3)(a) o'r Bil Etholiadau hefyd yn mewnosod is-adran (A2) newydd yn adran 31 o Ddeddf 2013, a fyddai'n darparu bod y cyfnod adolygu pan fydd yn rhaid i brif gyngor gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn ei ardal yn 12 mlynedd *yn dechrau gyda'r diwrnod y daw adran o'r Ddeddf i rym*, a pob cyfnod dilynol o 12 mlynedd.

2.51 Mae *hyd* y cyfnod adolygu hwn yr un fath â hyd y cyfnod adolygu estynedig newydd pan fydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru – gweler cymal 41(2)(a) o'r Bil Etholiadau (a fyddai'n diwygio adran 29(3) o Ddeddf 2013) ynghyd ag adran 29(1) o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, ni fydd y *dyddiad dechrau* ar gyfer y cyfnod adolygu o 12 mlynedd sy'n berthnasol i brif gynghorau yr un fath â'r dyddiad dechrau ar gyfer y cyfnod adolygu o 12 mlynedd sy'n berthnasol i'r Comisiwn – gan y bydd cyfnod adolygu 12 mlynedd y Comisiwn yn dechrau yn gynharach ar 30 Medi 2023 (a phob cyfnod o 12 mlynedd wedi hynny).⁹

2.52 Yn ei ymateb i'r *Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol* a ddaeth cyn y Bil Etholiadau, gwnaeth y Comisiwn yr awgrymiadau canlynol:

2.52.1 os bydd yn ofynnol i brif gyngor gynnal adolygiad o ffiniau cymuned ac adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned o fewn cyfnod penodol, yna dylai'r cyfnod hwnnw fod yr *un* cyfnod ag y mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal ei adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn yr un ardal;

2.52.2 dylai hyd y cyfnod adolygu gael ei ymestyn i 12 mlynedd yn hytrach na'r 10 presennol, er mwyn sicrhau bod digon o amser;

2.52.3 dylai'r cyfnodau adolygu gael eu trefnu mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn ymateb i heriau o ran llwyth gwaith. Os yw *pob* prif gyngor yn ddarostyngedig i'r un cyfnod adolygu, yna nid yw'n debygol y bydd y Comisiwn yn gallu cynnal *unrhyw* adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yn ystod hanner cyntaf y cyfnod adolygu, ac mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo gynnal yr *holl* adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yn ystod ail hanner y cyfnod – gyda chanlyniadau amlwg o ran y ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei bersonél, ei arbenigedd a'i llwyth gwaith. Gallai'r broblem hon gael ei lliniaru drwy bennu cyfnodau adolygu gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol o brif ardaloedd, er y byddai hyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy cymhleth.

2.53 Mae'r Comisiwn yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil Etholiadau a fyddai'n ymestyn y cyfnodau adolygu ar gyfer y Comisiwn a'r prif gynghorau i 12 mlynedd. Hefyd, mae'r Comisiwn yn cydnabod eto y gallai'r system o gyfnodau adolygu gwahanol a gynigiwyd ganddo yn flaenorol wneud Deddf 2013 yn llawer mwy cymhleth.

2.54 Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn awgrymu, os yw pob prif gyngor yn mynd i fod yn ddarostyngedig i'r un cyfnod adolygu o 12 mlynedd, yna dylai'r cyfnodau adolygu o 12 mlynedd sy'n berthnasol i brif gynghorau ac i'r Comisiwn fod yr *un* *peth* , ac felly *dylent ddechrau ar yr un dyddiad* . Yn fyr, y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol y bydd cyfnodau adolygu sy'n dechrau ar ddyddiadau gwahanol yn golygu y bydd cyfnodau "segur" ar ddechrau a/neu ddiwedd pob cyfnod adolygu pan na fydd modd cymryd unrhyw gamau gweithredu. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o olygu y bydd yr amser sydd ar gael yn ystod y cyfnod adolygu i gydymffurfio â rhwymedigaeth pob corff adolygu i gynnal adolygiadau yn llai na 12

⁹ Gweler cymal 41(2)(a) o'r Bil Etholiadau

mlynedd, gyda sgil-effeithiau ar gyfer llwythi gwaith cyrff adolygu a'u gallu i reoli eu hadnoddau. Caiff hyn ei egluro yn y paragraffau canlynol.

- 2.55 Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus bod ffiniau etholiadol yn gydlynol, yn yr ystyr bod ffiniau wardiau etholiadol prif gynghorau yn cyfateb i ffiniau cymunedau a wardiau cymuned. Felly, polisi cyffredinol y Comisiwn yw bod cymunedau yn ffurfio "blociau adeiladu" wardiau etholiadol prif gynghorau.¹⁰
- 2.56 O ganlyniad, mae'n ddefnyddiol os yw'r prif gyngor wedi cwblhau adolygiadau cymuned yn ei ardal yn ddiweddar cyn i'r Comisiwn ddechrau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn yr un ardal – fel bod y ffiniau cymuned (a hefyd drefniadau etholiadol cymuned) a fydd yn ffurfio "blociau adeiladu'r" Comisiwn at ddibenion yr adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn briodol ac yn gyfredol.
- 2.57 At hynny, os yw'r Comisiwn yn canfod, yn ystod adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal, y gallai fod yn briodol pennu ffiniau newydd ar gyfer ward etholiadol, bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried arfer y pŵer sydd ganddo i argymhell newidiadau i ffiniau cymuned, cynghorau cymuned a threfniadau etholiadol cymuned sy'n *ganlyniad* i newidiadau i drefniadau etholiadol y brif ardal.¹¹ Yn y ffordd hon, gall adolygiadau etholiadol prif ardaloedd arwain at newidiadau i drefniadau cymunedau yn yr un ardal.
- 2.58 Yn unol â hynny, polisi cyffredinol y Comisiwn yw aros nes bod prif gyngor wedi cwblhau ei adolygiadau cymuned cyn i'r Comisiwn ddechrau ei adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn ardal y cyngor hwnnw, er mwyn sicrhau bod trefniadau cymunedau sy'n llywio adolygiad y Comisiwn yn gyfredol ac nad ydynt yn cael eu newid oherwydd gweithredoedd y prif gyngor yn ystod adolygiad y Comisiwn.
- 2.59 Yn yr un modd, mae'n debygol o fod yn fwyaf effeithlon os na fydd prif gyngor yn dechrau ei adolygiadau cymuned tan ar ôl i'r Comisiwn gwblhau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn ardal y cyngor. Fel arall, bydd risg y gallai gwaith y prif gyngor fynd yn ofer, os bydd y prif gyngor yn cynnal adolygiad cymuned ar sail trefniadau sy'n cael eu newid yn ddiweddarach o ganlyniad i adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn.
- 2.60 At hynny, ar ddiwedd unrhyw adolygiad a gynhelir o dan Ddeddf 2013, bydd yr awdurdod gweithredu (sy'n derbyn yr adroddiad terfynol yn yr adolygiad) yn cael dewis, yn gyffredinol, a ddylid gwneud Gorchymyn sy'n gweithredu canlyniad yr adolygiad. Felly, ym marn y Comisiwn:
- 2.60.1 os yw prif gyngor yn cynnal adolygiad cymuned yn ei ardal (neu wedi cwblhau adolygiad o'r fath yn ddiweddar), yn ddelfrydol ni fydd y Comisiwn yn dechrau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal yn yr un ardal nes bod yr awdurdod gweithredu (y Comisiwn ei hun mewn rhai achosion) wedi cymryd ei benderfyniad gweithredu mewn perthynas ag adolygiad cymuned y prif gyngor.

¹⁰ Uchod, paragraff 2.43

¹¹ Gweler adran 29(7)(b) o Ddeddf 2013

Fel arall, bydd y Comisiwn yn dechrau ei adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal mewn amgylchiadau lle y gallai trefniadau cymunedau, sy'n ffurfio "blociau adeiladu" adolygiadau etholiadol, fod yn ansicr;

2.60.2 os yw'r Comisiwn yn cynnal adolygiad cymuned yn ei ardal (neu wedi cwblhau adolygiad o'r fath yn ddiweddar), yn ddelfrydol ni fydd y prif gyngor yn dechrau adolygiad cymuned yn yr un ardal nes bod yr awdurdod gweithredu wedi penderfynu a ddylid rhoi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad argymhellion terfynol y Comisiwn ar waith. Mae hyn am resymau tebyg, o ystyried bod gan y Comisiwn y pŵer mewn adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal i argymhell newidiadau canlyniadol i drefniadau cymuned.¹²

2.61 Felly, i grynhoi, mae'r Comisiwn o'r farn na ddylai ddechrau adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal oni bai bod unrhyw adolygiadau cymuned yn yr un ardal wedi cael eu cwblhau a'u rhoi ar waith. Yn yr un modd, ni ddylai'r prif gyngor ddechrau adolygiad cymuned yn ei ardal oni bai bod unrhyw adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal y mae'r Comisiwn yn ei gynnal (neu y bydd yn ei gynnal yn fuan) wedi cael ei gwblhau a'i roi ar waith.

2.62 Fel y nodwyd yn ymateb y Comisiwn i'r *Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol*, os yw'r un cyfnod adolygu o 12 mlynedd yn berthnasol i bob prif gyngor ac i'r Comisiwn, mae'n debygol y bydd y prif gynghorau yn cynnal eu hadolygiadau cymuned yn ystod tua hanner cyntaf y cyfnod hwnnw o 12 mlynedd, ac y bydd y Comisiwn yn cynnal ei adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yn ystod tua ail hanner y cyfnod.¹³ Mae hyn yn debygol o gyflwyno heriau amlwg i'r ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei bersonél, ei arbenigedd a'i lwyth gwaith.

2.63 Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae geiriau cyfredol y Bil Etholiadau yn debygol o olygu y bydd cyfnod adolygu 12 mlynedd y Comisiwn yn dechrau tua 6 i 12 mis *cyn* dechrau'r cyfnod adolygu o 12 mis ar gyfer prif gynghorau. Ar y sail hon, nid yw'r Comisiwn yn debygol o ddechrau ei adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yn y cyfnod cyn bod y cyfnod adolygu o 12 mlynedd ar gyfer prif gynghorau yn *dechrau*, nac yn oddeutu hanner cyntaf y cyfnod adolygu o 12 mlynedd ar gyfer prif gynghorau, gan na fydd trefniadau cymunedau wedi cael eu diweddarau yn ystod yr amser hwnnw. Felly, mae'r Comisiwn yn debygol o ddechrau ei adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yn *hwyrach na* hanner ffordd drwy ei gyfnod adolygu ei hun o 12 mis, gan adael *llai o amser* i'r Comisiwn gwblhau'r adolygiadau hynny. At hynny, unwaith y bydd adolygiadau'r Comisiwn wedi'u cwblhau a'u rhoi ar waith, efallai y bydd prif gynghorau yn cael eu gorfodi i aros cyn dechrau cylch newydd o adolygiadau cymuned, gan na fydd eu cyfnod adolygu newydd eu hunain wedi dechrau eto o bosibl.

2.64 Yn y ffordd hon, efallai y bydd "cyfnodau segur" ar ddechrau a diwedd pob cylch adolygu lle na fydd modd gweithredu. Byddai hyn yn aneffeithiol ac yn golygu bod amser yn cael ei golli.

¹² Gweler uchod, paragraff 2.57

¹³ Mae'r Comisiwn yn nodi yn hyn o beth y dyddiad cau o 24 mis ar gyfer pob adolygiad cymuned, fel y darperir ar ei gyfer yn adran arfaethedig newydd 36B(5) o Ddeddf 2013, i'w mewnosod gan gymal 48(2) o'r Bil Etholiadau

2.65 Mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai'r cyfnodau adolygu o 12 mlynedd ar gyfer prif gynghorau ac ar gyfer y Comisiwn ddechrau ar yr un dyddiad**, er mwyn osgoi'r cyfnodau hyn o "segurdod". Gallai'r newid hwn gael ei gyflawni drwy ddiwygio cymal 51(3)(a) i ddarparu bod y cyfnod adolygu cyntaf o 12 mlynedd ar gyfer prif gynghorau yn dechrau ar 30 Medi 2023, gan adlewyrchu'r ddarpariaeth yng nghymal 41(2)(a)(i) ar gyfer cyfnod adolygu'r Comisiwn. Fel arall (gan y byddai'r newid hwn yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael yn y cyfryw gyfnod adolygu cyntaf i brif gynghorau), gallai cymal 41(2)(a)(i) gael ei ddiwygio yn lle hynny fel bod y cyfnod adolygu o 12 mlynedd ar gyfer y Comisiwn yn dechrau ar y diwrnod y daw cymal 51 o'r Bil i rym, gan adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yng nghymal 51(3)(a) ar gyfer prif gynghorau.

Cymal 55 – darpariaeth drosiannol

2.66 Mae Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil Etholiadau yn cynnwys cymalau 40 i 55, sy'n bennaf yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf 2013. Bydd Pennod 1 o Ran 2 yn dod i rym 2 fis ar ôl i'r Bil Etholiadau gael Cydsyniad Brenhinol – gweler cymal 70(2)(a).

2.67 Mae cymal 55(1) o'r Bil yn darparu y dylai adolygiadau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 sy'n mynd rhagddynt pan fydd Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil yn dod i rym gael eu cwblhau fel pe na bai'r newidiadau i'r Bil Etholiadau wedi cael eu gwneud. Mae cymal 55(2) yn darparu, at ddibenion yr adolygiadau hynny sy'n mynd rhagddynt, fod Rhan 3 o Ddeddf 2013 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn parhau mewn grym fel y maent ar hyn o bryd.

2.68 Mae'r Comisiwn yn cadarnhau ei fod wrthi'n cynnal nifer o adolygiadau o ffiniau cymunedau drwy gytundeb â'r prif gyngor perthnasol o dan adran 26. Mae'r Comisiwn hefyd yn ymwybodol bod adolygiadau cymuned eraill yn cael eu cynnal gan brif gynghorau ar hyn o bryd.

